Rhif: WG53582

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Newidiadau i reolau etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru

Gorchymyn drafft Rheolau Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026 a Gorchymyn drafft Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Eithrio Treuliau Diogelwch) (Diwygio) (Cymru) 2026.

Chwefror 2026

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx
ISBN Digidol

## Trosolwg

Crynodeb o’r ymatebion a gafwyd i’r ymgynghoriad ar Reolau Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026 drafft a Gorchymyn Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Eithrio Treuliau Diogelwch) (Diwygio) (Cymru) 2026 a gynhaliwyd rhwng 20 Hydref 2025 a 12 Ionawr 2026.

## Camau i’w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn iaith arall.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Etholiadau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Etholiadau.Elections@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori: Ymgynghoriad ar y newidiadau i reolau etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .... 4
2. Trosolwg o'r ymatebion .... 6
3. Crynodeb o'r ymatebion i Gwestiynau'r Ymgynghoriad .... 7
4. Y camau nesaf .... 23

# 1. Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar Reolau Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026 drafft a Gorchymyn Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Eithrio Treuliau Diogelwch) (Diwygio) (Cymru) 2026 ar 20 Hydref 2025 a daeth i ben ar 12 Ionawr 2026.

*Rheolau Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026*

1.2 Mae Rheolau Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026 ("y Rheolau Diwygio") yn diwygio'r rheolau ar gyfer cynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021, y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel "Rheolau 2021". Gyda'i gilydd, mae'r ddau ddarn hyn o ddeddfwriaeth yn darparu sut y caiff etholiad ei gynnal yng Nghymru mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol.

1.3 Cafodd Rheolau 2021 eu hailddrafftio a'u moderneiddio'n llwyr yn 2021. Cafodd y ddwy set o reolau eu diwygio yn 2022, a chafodd Rheolau'r Prif Ardaloedd eu diweddaru ymhellach yn 2023 er mwyn gallu cynnal etholiadau o dan y system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy os bydd unrhyw brif gyngor yn mabwysiadu'r system honno.

1.4 Dim ond newidiadau angenrheidiol a thechnegol i Reolau 2021 y mae'r Rheolau Diwygio yn eu gwneud, a hynny er mwyn ystyried newidiadau i bolisi a deddfwriaeth arall.

1.5 Mae'r prif newidiadau polisi y mae'r Rheolau Diwygio yn effeithio arnynt yn cynnwys diwygio'r geiriad yn y ffurflenni rhagnodedig sy'n ofynnol o ganlyniad i Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023 ("Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy") a gwelliannau bach a nodwyd wrth baratoi'r Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Mae newidiadau pellach a wnaed yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 ("y Gorchymyn Cynnal Etholiadau") hefyd yn cael eu hystyried yn y Rheolau Diwygio, megis darpariaethau hygyrchedd.

1.6 Dyma'r newidiadau yn gryno:

- Gofynion o ran y Gymraeg
- Diweddaru ffurflenni rhagnodedig
- Dyletswydd ynghylch cyfarpar hygyrchedd
- Disgrifiadau ar y cyd
- Gweithio'n ddigidol
- Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyhoeddus
- Llenwi swyddi sy'n digwydd dod yn wag mewn cynghorau tref a chymuned: cywiriad "rheol chwe mis"
- Cywiriadau a mân ddiwygiadau

1.7 Mae’r Rheolau Diwygio yn cyd-fynd â Gorchymyn Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Eithrio Treuliau Diogelwch) (Diwygio) (Cymru) 2026 (“y Gorchymyn Eithrio”).

1.8 Er mwyn sicrhau bod etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn cyd-fynd â newidiadau diweddar ar gyfer etholiadau’r Senedd, mae angen darn o ddeddfwriaeth ar wahân i sicrhau cysondeb o ran gwariant ar ymgyrchoedd. Mae’r newid hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddiwygio paragraff 13A o Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (“Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983”). Bydd y diwygiad yn sicrhau na fydd ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol, fel rhan o’u treuliau etholiad, yn gorfod rhoi cyfrif am dreuliau rhesymol a ysgwyddir wrth ddarparu ar gyfer eu diogelwch personol a diogelu eiddo.

## 2. Trosolwg o'r ymatebion

2.1 Cafwyd cyfanswm o 34 o ymatebion i'r ymgynghoriad drwy'r ffurflen ar-lein, e-bost a'r post, a hynny gan randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

2.2 Mae rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cynnwys cyrff statudol fel y Comisiwn Etholiadol a Chomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

2.3 Roedd tri ymateb a gafwyd yn cynnwys iaith ymfflamychol ac anweddus, felly maent wedi cael eu diystyru o'r crynodeb o ymatebion. Roedd un ymateb yn gopi dyblyg ac mae hwnnw hefyd wedi cael ei ddiystyru.

2.4 Mae'r 30 ymateb arall wedi'u nodi yn ôl math isod.

Tabl 1: Nifer yr ymatebwyr yn ôl math ar draws holl fformatau'r arolwg:

| Math o Ymatebydd | Nifer yr Ymatebwyr | Canran yr Ymatebwyr |
|---|---|---|
| Aelod o'r cyhoedd | 13 | 43.3% |
| Gweinyddwr etholiadol | 7 | 23.3% |
| Corff statudol/Corff cynrychioliadol/Corff neu Gymdeithas broffesiynol | 3 | 10% |
| Y Trydydd Sector | 1 | 3.3% |
| Arall | 6 | 20% |
| **Cyfansymiau:** | **30** | **100%** |


2.5 Mae Adran 3 yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad.

2.6 Nid oedd rhai ymatebion yn ateb cwestiynau penodol ond yn hytrach yn rhoi ymateb cyffredinol. Rhoddir cyfrif am yr ymatebion hyn o dan y cwestiwn perthnasol lle bo hynny'n berthnasol, neu yn y crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiwn mwy cyffredinol (cwestiwn 15).

2.7 Defnyddiwyd cwestiynau 12 a 13 yr ymgynghoriad i gasglu barn ar y gwahanol feysydd diwygio a amlygwyd yn strategaeth Llywodraeth y DU Restoring trust in our democracy: Our strategy for modern and secure elections. Er bod Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar iawn i randdeiliaid am roi o'u hamser i roi eu barn ar y mater hwn, nid yw'r ddogfen hon yn darparu dadansoddiad manwl nac ymatebion unigol i sylwadau a gafwyd, gan fod hyn y tu allan i gwmpas y Rheolau Diwygio. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith ar hyn, a bydd y safbwyntiau a gesglir yn sail i'r gwaith hwnnw wrth i ni barhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar ei rhaglen diwygio etholiadol.

## 3. Crynodeb o'r ymatebion i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

### Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno â'r darpariaethau ynglŷn â'r Gymraeg yn y Rheolau drafft?





3.1 Roedd mwy na dwy ran o dair o'r 29 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r rheolau drafft.

3.2 Roedd sylwadau a ddarparwyd gan ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn pwysleisio pwysigrwydd cefnogaeth Comisiynydd y Gymraeg a gwasanaethau cyfieithu wrth ddarparu'r ffurflenni rhagnodedig a deunyddiau etholiadol eraill a dderbynnir gan bleidleiswyr.

3.3 Gofynnodd un ymatebydd am ddarpariaeth yn y Rheolau Diwygio i fynnu enw Cymraeg ar gyfer pob ward/ardal etholiadol yng Nghymru. Mae hyn y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad, gan na fyddai unrhyw newidiadau i enwau wardiau neu etholaethau etholiadol yn rhan o'r ddeddfwriaeth hon. Ar ben hynny, cyfrifoldeb Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yw gwaith ar adolygiadau etholiadol. Dechreuodd adolygiadau etholiadol o'r 22 prif gyngor ym mis Mai 2025, a byddai unrhyw ystyriaeth o enwau wardiau yn rhan o'r gwaith hwnnw.

3.4 Roedd saith o'r wyth ymatebydd a atebodd 'Nac ydw' yn amlinellu credoau sy'n gwrthdaro â statws y Gymraeg fel iaith swyddogol yng Nghymru, sef na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae trafodaethau ynghylch dilysrwydd y Gymraeg fel iaith swyddogol Cymru y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn.

**Cwestiwn 2 – Yn eich barn chi, a oes unrhyw ddiwygiadau i Reolau 2021 a fyddai'n helpu i sicrhau bod y ffurflenni rhagnodedig ar gael yn ddwyieithog?**





3.5 O blith y 28 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 9 wedi ateb 'Oes'. Roedd dau ymatebydd heb ateb y cwestiwn hwn.

3.6 Roedd y sylwadau a gafwyd yn canolbwyntio ar ba mor ddymunol oedd ffurflenni rhagnodedig safonedig. Roedd un sylw yn cynnig y dylai fersiwn derfynol y Rheolau Diwygio gynnwys templedi digidol dwyieithog i sicrhau cydraddoldeb rhwng yr ieithoedd, er mwyn lleihau dyblygu gwaith a'r risg o wahaniaethau rhwng awdurdodau lleol.

3.7 Roedd y sylwadau a gafwyd hefyd yn mynegi y dylai'r Comisiwn Etholiadol lunio templedi er mwyn safoni fformatau dylunio a sicrhau mwy o hygyrchedd. Byddai hyn hefyd yn lleihau'r baich gweinyddol ar Swyddogion Canlyniadau.

3.8 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai templedi safonedig helpu gweinyddwyr etholiadol i sicrhau bod ffurflenni'n ddwyieithog ac y byddent yn lleihau'r baich ar awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae llunio templedi ar gyfer ffurflenni rhagnodedig y tu allan i gylch gwaith y ddeddfwriaeth. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod darparu templedi safonedig gyda'r Comisiwn Etholiadol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a'r Bwrdd Rheoli Etholiadol.

**Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau arfaethedig i'r ffurflenni rhagnodedig yn Rheolau 2021?**




3.9 O blith y 28 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 21 wedi ateb 'Ydw' i'r cwestiwn. Roedd un ymatebydd heb ateb y cwestiwn hwn.

3.10 O'r rhai a oedd yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig, roedd un ymatebydd yn croesawu'r diwygiadau arfaethedig, gan nodi bod y datganiad o aelodaeth o blaid ar y ffurflen enwebu wedi achosi dryswch i rai ymgeiswyr yn etholiadau llywodraeth leol 2022 yng Nghymru, gyda rhai ohonynt wedi methu â chwblhau'r adran honno neu wedi'i llenwi'n anghywir.

3.11 Dywedodd un ymatebydd y dylid cynnwys esboniadau mewn iaith syml gyda phob ffurflen er mwyn helpu pleidleiswyr i ddeall y cynnwys. Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer rhywfaint o arweiniad i ffurflenni rhagnodedig, gan ddefnyddio iaith syml lle bo hynny'n bosibl.

3.12 Nododd sylwadau pellach nad yw'r Rheolau drafft yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i bob ffurflen yn yr atodiadau gael ei chyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd hyn wedi'i nodi'n glir yn y papur ymgynghori, gan nad oedd unrhyw ddiwygiadau penodol wedi'u cynnwys yn y Rheolau Diwygio drafft a oedd yn destun yr ymgynghoriad hwn. Mae'r Rheolau Diwygio wedi'u cyfyngu i wneud diwygiadau i'r ffurflenni a ragnodir yn Rheolau 2021 (a ddarperir fel atodiadau yn Rheolau 2021) ac mae Rheolau 2021 eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i'r atodiadau gael eu darparu'n ddwyieithog.


3.13 Roedd saith ymatebydd yn anghytuno â'r diwygiadau arfaethedig. Roedd y sylwadau'n cynnwys pryder y gallai unrhyw gostau ychwanegol roi ymgeiswyr annibynnol dan anfantais, a phryder ynghylch twyll pleidleiswyr ar y testun yn y papurau pleidleisio. Er bod y pryderon hyn yn cael eu cydnabod, mae

mesurau ar waith i atal twyll pleidleiswyr, ac mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer y testun y darperir ar ei gyfer ar bapurau pleidleisio.

3.14 Roedd nifer o'r sylwadau'n canolbwyntio ar faterion y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys y newidiadau diweddar i etholiadau'r Senedd.

3.15 Roedd nifer o ymatebion gan weinyddwyr etholiadol a chyrff statudol/cynrychioladol yn mynegi pryderon ynghylch dyddiad cychwyn y darpariaethau hyn, fel pe bai unrhyw is-etholiadau llywodraeth leol yn dilyn etholiadau'r Senedd yn 2026, ni fyddai llawer o amser i Swyddogion Canlyniadau a chyflenwyr argraffu ddiweddaru'r ffurflenni. Mae'r pryder hwn yn cael ei gydnabod ac yn cael sylw manylach yn ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn 15.

**Cwestiwn 4 – Ydych chi’n cytuno â’r ddarpariaeth newydd yn y Rheolau drafft i osod dyletswydd ar swyddogion canlyniadau i ddarparu cyfarpar sy’n rhesymol i sicrhau ei bod yn haws i bobl anabl bleidleisio?**




3.16 O blith y 28 o ymatebion i’r cwestiwn hwn, roedd 25 wedi ateb ‘Ydw’. Roedd un ymatebydd heb ateb y cwestiwn hwn.


3.17 Roedd un ymatebydd yn “cytuno’n gryf” â’r ddyletswydd hygyrchedd, ac roedd ymatebwyr yn cydnabod y byddai’r newid yn cysoni etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ag etholiadau’r Senedd a’r DU.

3.18 Roedd ymatebion gan gyrff statudol a chynrychioladol o blaid y ddarpariaeth newydd, gan ddweud y bydd yn ei gwneud yn haws i bleidleiswyr ddeall y cymorth y gallant ei ddisgwyl mewn gorsafoedd pleidleisio. Hefyd, byddai’n rhoi hyblygrwydd i Swyddogion Canlyniadau ddarparu cymorth yn unol â’u hadnabyddiaeth o’r amgylchiadau lleol.

3.19 Yn gyffredinol, roedd gweinyddwyr etholiadol o blaid y ddarpariaeth, ond roedd rhywfaint o bryder am gyllid i gefnogi’r ddyletswydd hygyrchedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu’r ddyletswydd hygyrchedd ar ôl etholiad y Senedd yn 2026, a gellir gwneud rhagor o waith yn y maes hwn i gefnogi awdurdodau lleol.

3.20 Nid oedd y tri ymatebydd a atebodd ‘Nac ydw’ wedi rhoi rhagor o sylwadau, ac eithrio un ymatebydd a ddywedodd nad oedd angen newid.

**Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno â'r ddarpariaeth newydd yn y Rheolau drafft i ddiwygio'r iaith ynghylch anabledd?**




3.21 O blith y 27 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 23 wedi ateb 'Ydw' a 4 wedi ateb 'Nac ydw'.

3.22 Roedd sylwadau gan ymatebwyr a atebodd 'Ydw' i'r cwestiwn o blaid diweddaru'r ieithwedd, i adlewyrchu newidiadau i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau.


3.23 Dywedodd ymatebydd o'r categori cyrff statudol a chynrychioladol fod y diweddaru'r ieithwedd yn rhoi eglurder ac yn adlewyrchu'r cymorth y mae Swyddogion Canlyniadau eisoes yn ei darparu.

3.24 Fodd bynnag, mynegwyd pryderon na ddylai'r ieithwedd a ddefnyddir gyfyngu ar bwy sy'n gymwys i gael cymorth a bod yn rhaid i'r cymorth fod yn seiliedig ar angen, nid ar ddiagnosis meddygol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r model cymdeithasol o anabledd a bwriad y Rheolau Diwygio, drwy'r ddyletswydd hygyrchedd a'r ieithwedd wedi'i diweddaru, yw sicrhau bod pob pleidleisiwr sydd angen cymorth yn gallu cael gafael arno. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi llunio canllawiau ar hygyrchedd, sy'n nodi rhagor o arweiniad ar y mater hwn.

3.25 Pwysleisiodd ymatebydd arall fod yn rhaid i'r derminoleg ddiwygiedig fod yn gwbl ddwyieithog er mwyn i bleidleiswyr ag anableddau allu cael gafael ar wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

3.26 Roedd y sylwadau a rannwyd gan ymatebwyr a atebodd 'Nac ydw' yn cyfeirio at bynciau y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn.

**Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno â'r darpariaethau yn y Rheolau drafft i ddefnyddio disgrifiadau ar y cyd?**





3.27 O blith y 28 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 21 wedi ateb 'Ydw' a saith wedi ateb 'Nac ydw'. Roedd un ymatebydd heb ateb y cwestiwn hwn.

3.28 Nododd ymatebwyr a atebodd 'Ydw' fod y darpariaethau hyn yn sicrhau bod etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn cyd-fynd ag etholiadau eraill yn y DU, ac roeddent yn croesawu cyfarwyddiadau cliriach i ymgeiswyr. Roedd ymatebion o'r categori cyrff statudol a chynrychioladol yn croesawu'r newidiadau, yn dilyn dryswch yn yr etholiad llywodraeth leol diwethaf yng Nghymru yn 2022.

3.29 Roedd sylwadau eraill yn ystyried bod y ddarpariaeth i ganiatáu disgrifiadau ar y cyd yn ddim mwy nag estyniad i'r rheolau presennol sy'n caniatáu enwau pleidiau cofrestredig.

3.30 Rhybuddiodd un ymatebydd a atebodd 'Nac ydw' na ddylai pleidleiswyr gael eu camarwain i ddarllen disgrifiadau ar y cyd fel arwyddion o glymbleidiau ac na ddylai ymgeiswyr annibynnol fod dan anfantais oherwydd disgrifiadau hir, ar ffurf slogan. Er bod hyn yn cael ei gydnabod, mae caniatáu defnyddio disgrifiadau ar y cyd yn golygu bod etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn cyd-fynd â'r rheolau perthnasol ar gyfer etholiadau eraill yn y DU.

**Cwestiwn 7 – Ydych chi'n cytuno â'r darpariaethau yn y Rheolau drafft o ran gweithio yn electronig, sy'n gydnaws â phrosesau cyfatebol ar gyfer etholiadau i'r Senedd?**





3.31 O blith y 29 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 22 wedi ateb 'Ydw' a 7 wedi ateb 'Nac ydw'.

3.32 Roedd croeso cyffredinol i'r darpariaethau, ar sail cysoni etholiadau llywodraeth leol ag etholiadau'r Senedd. Roedd ymatebion gan weinyddwyr etholiadol a'r rhai yn y categori corff statudol/cynrychioliadol o blaid y darpariaethau'n gyffredinol.

3.33 Dywedodd un ymatebydd na ddylai cyfeiriadau e-bost ddisodli cyfeiriadau asiantiaid fel gwybodaeth gyswllt. Bydd y Rheolau Diwygio yn sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer etholiadau yng Nghymru yn gyson, ac mai'r unig beth a wna'r ddeddfwriaeth yw ailadrodd newidiadau i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau. Nid oes unrhyw newid i bolisi yn digwydd.

3.34 Roedd ymatebwyr hefyd yn rhannu pryderon y gallai opsiynau digidol roi pobl dan anfantais os ydynt yn gallu defnyddio systemau papur yn unig, neu os ydynt yn dewis gwneud hynny, ac na ddylai moderneiddio systemau arwain at anfantais i'r rhai sy'n dewis systemau papur. Er bod y pryderon hyn yn cael eu cydnabod, yr unig beth a wna'r ddeddfwriaeth yw efelychu prosesau electronig cyfatebol ar gyfer etholiadau'r Senedd, a darperir ar gyfer defnyddio papur o hyd. Ni fydd pobl dan anfantais os nad ydynt yn dewis gweithio'n electronig.

**Cwestiwn 8 – Ydych chi'n cytuno â'r darpariaethau yn y Rheolau drafft o ran defnyddio ystafelloedd cyhoeddus, i'w gwneud yn gydnaws â'r ddarpariaeth gyfatebol ar gyfer etholiadau i'r Senedd?**





3.35 O blith y 25 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 24 wedi ateb 'Ydw' ac un wedi ateb 'Nac ydw'. Roedd yr ymatebydd a atebodd 'Nac ydw' heb ddarparu unrhyw esboniad pellach ynghylch pam ei fod yn anghytuno â'r ddarpariaeth hon.

3.36 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn y gymuned etholiadol o blaid y ddarpariaeth, gan ddweud bod hyn yn cyd-fynd â darpariaethau ar gyfer etholiadau'r Senedd.

3.37 Dywedodd ymatebwyr hefyd y byddai'r ddarpariaeth hon yn cefnogi ymgysylltiad lleol ag ymgeiswyr, ac roedd y sylwadau hefyd yn nodi bod y ddarpariaeth hon yn helpu Swyddogion Canlyniadau i sicrhau lleoliadau addas a hygyrch i bleidleiswyr.

**Cwestiwn 9 – Ydych chi’n cytuno â’r cywiriadau a’r mân ddiwygiadau yn y Rheolau drafft er mwyn adlewyrchu newidiadau eraill mewn mannau eraill, er enghraifft drwy’r Gorchymyn Cynnal Etholiadau?**





3.38 O blith y 26 o ymatebion i’r cwestiwn hwn, roedd 25 wedi ateb ‘Ydw’ ac un wedi ateb ‘Nac ydw’.

3.39 Dywedodd ymatebwyr a oedd o blaid y cywiriadau hyn eu bod yn gwella eglurder a chysondeb cyfreithiol ag etholiadau’r Senedd.

3.40 Roedd sylwadau pellach a ddarparwyd yn rhoi croeso cyffredinol i’r newidiadau sy’n dileu amwyseddau ac yn hyrwyddo cysondeb i Swyddogion Canlyniadau ar draws etholiadau’r Senedd a llywodraeth leol, gan ddweud y bydd hyn yn lleihau’r risg o ddryswch i’r rhai sy’n gweinyddu etholiadau.

3.41 Derbyniwyd nifer o sylwadau sydd y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad.

**Cwestiwn 10 – Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor o gywiro'r cyfnod o chwe mis, fel bod y broses ar gyfer cynghorau tref a chymuned yr un fath â'r broses ar gyfer prif gynghorau?**





3.42 O blith y 27 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 22 wedi ateb 'Ydw' a 5 wedi ateb 'Nac ydw'.

3.43 Roedd yr ymatebwyr a atebodd 'Ydw' wedi cyfeirio at werth cysondeb i Swyddogion Canlyniadau, clercod, ymgeiswyr a'r cyhoedd. Dywedodd un gweinyddwr etholiadol y dylid mabwysiadu'r safbwynt ymarferol hwn.

3.44 Roedd un ymatebydd a oedd o blaid wedi cyfeirio hefyd at gost is-etholiadau a'r gost anghymesur o lenwi sedd ar gyngor cymuned neu dref drwy is-etholiad.

3.45 Roedd rhai sylwadau a gafwyd yn cyfeirio at bynciau y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys y dylai etholiadau cynghorau cymuned a sir ddilyn yr un system etholiadol â'r Senedd. Mae hyn y tu allan i gwmpas y ddeddfwriaeth.

**Cwestiwn 11 – Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor o gysoni'r eithriad i dreuliau diogelwch rhag terfynau gwariant ymgyrchu ar gyfer ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol?**




3.46 O blith y 27 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 21 wedi ateb 'Ydw' a 6 wedi ateb 'Nac ydw'.

3.47 Roedd ymatebwyr a oedd wedi ateb 'Ydw' wedi rhoi sylwadau yn cyfeirio at werth cydraddoldeb i ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiadau eraill, ac roeddent yn cyfeirio at werth prosesau diogelwch o ran annog amrywiaeth eang o ymgeiswyr.

3.48 Roedd rhai ymatebwyr o blaid eithrio cost diogelwch 'mewn egwyddor' ac yn mynegi pryderon ynghylch camddefnyddio hyn a'r angen i ymgeiswyr gael mynediad at gymorth diogelwch personol sylfaenol. Mae'r pryderon ynghylch camddefnyddio'r eithriad hwn yn cael eu cydnabod, ond mae sicrhau bod etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn cyd-fynd ag etholiadau'r Senedd ac etholiadau a gedwir yn ôl yn bwysig er mwyn sicrhau cysondeb ac er mwyn osgoi dryswch ymysg ymgeiswyr a gweinyddwyr. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu hyn, ac os bydd angen rhagor o newidiadau yn y dyfodol i ddiogelu rhag camddefnydd, bydd hyn yn cael ei ystyried.

3.49 Nododd ymatebwyr hefyd yr angen am oruchwyliaeth ariannol briodol. Er bod y pryder hwn yn cael ei gydnabod, mae goruchwyliaeth ariannol o wariant ymgeiswyr y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

3.50 Nid oedd gweinyddwyr etholiadol na'r rhai o gyrff statudol a chynrychioladol wedi darparu rhagor o sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn, gan nad oedd y mater yn effeithio arnyn nhw neu am eu bod o blaid yn gyffredinol.

**Cwestiwn 12 – Beth yw eich barn ar y diwygiadau posibl a nodir ym mhapur strategaeth Llywodraeth y DU o ran etholiadau a gedwir yn ôl?**


3.51 Cafwyd cyfanswm o 15 ymateb i'r cwestiwn hwn. Nid oedd llawer o'r ymatebwyr wedi ymgysylltu â'r cwestiwn nac wedi rhoi sylwadau pellach.

3.52 Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r ddogfen hon, defnyddiwyd cwestiwn 12 i gasglu barn ar y gwahanol feysydd diwygio a amlygwyd yn strategaeth Llywodraeth y DU Restoring trust in our democracy: Our strategy for modern and secure elections.

3.53 O blith y rhai a ymatebodd, roedd y sylwadau o blaid cynigion y DU yn gyffredinol, ond roeddent hefyd er hynny yn nodi y byddai angen archwilio ymhellach a oedd y diwygiadau'n briodol i Gymru.

3.54 Er bod Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar iawn i randdeiliaid am roi o'u hamser i roi eu barn ar y mater hwn, nid yw'r ddogfen hon yn darparu dadansoddiad manwl nac ymatebion unigol i sylwadau a gafwyd, gan fod hyn y tu allan i gwmpas y Rheolau Diwygio. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith ar hyn, a bydd y safbwyntiau a gesglir yn sail i'r gwaith hwnnw wrth i ni barhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar ei rhaglen diwygio etholiadol.

**Cwestiwn 13 – A yw'r ffurflenni presennol yn cyflawni'r pwrpas a fwriedir yn effeithiol?**




3.55 O blith y 27 ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 22 wedi ateb 'Ydy', sef bod y ffurflenni presennol yn effeithiol, ac roedd pump wedi ateb 'Nac ydy'.

3.56 Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r ddogfen hon, mae cwestiwn 13 wedi cael ei ddefnyddio i gasglu barn ar y gwahanol feysydd diwygio sy'n cael eu cynnig gan Lywodraeth y DU, sy'n cynnwys cynnig i adolygu dogfennau etholiadol ('ffurflenni'), gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cyhoeddi gan Swyddogion Canlyniadau i etholwyr, megis cardiau pleidleisio.

3.57 Dywedodd un gweinyddwr etholiadol y dylid cynnal adolygiad tebyg o ddogfennau etholiadol yng Nghymru, er mwyn sicrhau cysondeb ar draws etholiadau datganoledig ac a gedwir yn ôl.

3.58 Er bod Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar iawn i randdeiliaid am roi o'u hamser i roi eu barn ar y mater hwn, nid yw'r ddogfen hon yn darparu dadansoddiad manwl nac ymatebion unigol i sylwadau a gafwyd, gan fod hyn y tu allan i gwmpas y Rheolau Diwygio. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith ar hyn, a bydd y safbwyntiau a gesglir yn sail i'r gwaith hwnnw wrth i ni barhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar ei rhaglen diwygio etholiadol.

**Cwestiwn 14 – Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid y Rheolau drafft a'r Gorchymyn drafft er mwyn gwneud y canlynol:**

- **sicrhau effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**
- **liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

3.59 Cawsom 18 o sylwadau i ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd traean o'r ymatebion (6) yn canolbwyntio ar bynciau y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad; gan anghytuno'n bennaf â statws y Gymraeg fel iaith swyddogol Cymru.

3.60 Roedd 7 ymateb arall yn cefnogi newidiadau i etholiadau llywodraeth leol a fyddai'n sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael yr un flaenoriaeth.

3.61 Galwodd un ymatebydd ar Lywodraeth Cymru i gysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg a rhanddeiliaid eraill i lunio templed dwyieithog ar gyfer ffurflenni etholiadol sy'n cael eu llunio a'u defnyddio fel arfer gan Swyddogion Canlyniadau. Er bod y sylw hwn yn cael ei gydnabod, mae hyn y tu allan i gwmpas y ddeddfwriaeth ac ni fydd yn cael ei ystyried ymhellach mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud ar y Gymraeg mewn etholiadau yn y dyfodol.

**Cwestiwn 15 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, rhowch wybod inni.**

3.62 Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys methodoleg cynrychiolaeth gyfrannol a phynciau eraill y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad.

3.63 Galwodd nifer o ymatebwyr ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agosach gyda llywodraethau'r DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon i sicrhau bod yr arferion gorau'n cael eu cysoni a'u rhannu'n agosach ar gyfer etholiadau cenedlaethol, datganoledig a lleol, mewn meysydd fel datblygu cardiau pleidleisio yn y dyfodol. Mae hyn yn cael ei gydnabod, ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws y llywodraeth i gysoni gwaith lle bynnag y bo modd.

3.64 Roedd nifer o ymatebion gan weinyddwyr etholiadol a chyrff statudol a chynrychioladol yn mynegi pryder ynghylch y dyddiad pryd y daw'r Rheolau Diwygio i rym, oherwydd gallai hyn achosi mwy o bwysau ar Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr pe bai is-etholiadau llywodraeth leol yn cael eu cynnal yn fuan ar ôl etholiadau'r Senedd yn 2026. Mae'r pryder hwn yn cael ei gydnabod, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried hyn ac wedi diwygio'r ddeddfwriaeth yn unol â hynny.

3.65 Bydd y Rheolau Diwygio yn dod i rym ym mis Mawrth 2026, ond ni fyddant yn cael effaith tan yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf ym mis Mai 2027. Bydd unrhyw is-etholiadau a gynhelir cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau 2021 fel rhai heb eu diwygio.

3.66 Bydd yr amserlen hon yn rhoi digon o amser i'r Comisiwn Etholiadol a gweinyddwyr etholiadol ddiweddaru gweithdrefnau, canllawiau a ffurflenni perthnasol.

3.67 Cyflwynodd un ymatebydd ymateb i'r ymgynghoriad gyda sylwadau'n ymwneud â'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau (EIP) yn unig, sydd y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymateb ymhellach ac yn ymateb iddo ar wahân.

## 4. Y camau nesaf

4.1 Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod y Rheolau Diwygio a'r Gorchymyn Eithrio gerbron y Senedd ym mis Chwefror 2026. Bwriedir iddynt gael eu gwneud ym mis Mawrth 2026, ar ôl cael cymeradwyaeth y Senedd.

4.2 Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r holl safbwyntiau a fynegwyd i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Byddant yn helpu i sicrhau bod y Rheolau Diwygio a'r Gorchymyn Eithrio terfynol yn addas i'r diben. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid ar weithredu'r ddeddfwriaeth cyn etholiadau llywodraeth leol yn 2027.

4.3 Bydd unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn cael eu nodi yn y Memorandwm Esboniadol a fydd yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r Gorchmynion.